CYLCHLYTHYR NADOLIG MARCHNAD FFERMWYR HWLFFORDD

Annwyl Gyfeillion Marchnad Ffermwyr Hwlffordd

Mae'r Nadolig yn cyrraedd Marchnad Ffermwyr Hwlffordd yn gynnar! Bu'r stondinwyr eisoes yn cynllunio a pharatoi bwyd ac anrhegion bendigedig i sicrhau fod pob un o'u cwsmeriaid yn gallu achub y blaen ar brysurdeb yr ŵyl.

Mae POB UN o'n marchnadoedd yn ystod mis Rhagfyr yn farchnad Nadolig, er mwyn i bawb allu manteisio'n llawn ar y dewis ardderchog o fwyd ac anrhegion sydd ar gael. Mae archebion eisoes yn cael eu derbyn ar gyfer y Nadolig, felly peidiwch â cholli'r cyfle i fwynhau eich holl ffefrynnau, ac archebwch nawr!

BETH SY'N CAEL EI GYNNIG YM MARCHNADOEDD NADOLIG MARCHNAD FFERMWYR HWLFFORDD

Dydd Gwener 1, 8, 15 a 22 Rhagfyr

Marchnad Wledig Hwlffordd – dewiswch o blith detholiad moethus o deisennau, pwdinau, bisgedi ac eitemau blasus melys a sawrus cartref yn stondin Marchnad Wledig Hwlffordd, ac yn arbennig ar gyfer tymor y gwyliau, beth am ddweud naw wfft i'r deiet gyda danteithion fel mins peis, pwdinau Nadolig a Stollen, ynghyd â theisennau Nadolig moethus â brandi, a hamperi anrheg Nadolig bendigedig. Gellir archebu eitemau di-glwten a di-wenith hefyd, gan gynnwys teisen siocled foethus, teisen lemwn ac eitemau sawrus, ynghyd â theisennau dathlu cartref blasus.

Fferm Organig Hazelwell – mae gennym gynnyrch anhygoel i'ch temtio o blith cig oen ac eidion sydd ar gael gan Paul bob amser, gan gynnwys brisged eidion, 'topside' eidion, rac cig oen, golwython syrlwyn, golwython lwyn oen, cytledi oen a llawer o ddewisiadau organig blasus eraill. Yn arbennig ar gyfer tymor y gwyliau, dewiswch eidion bridiau prin a chanonau oen a choesau oen sydd wedi ennill gwobrau. Mae Paul yn derbyn archebion Nadolig nawr.

Perlysiau a Phlanhigion Gardd Rhoshill Cadwch lygad am ddetholiad o dorchau a chroesau Nadolig gan Andy ym mis Rhagfyr, ynghyd â dewis o gardiau Nadolig a wnaed â llaw.

F J Hathway & Sons - Mae gan Barry ddewis helaeth o lysiau'r gaeaf a dyfwyd gartref ar gael nawr… Os oes chwant llond bol o lobscows neu gaserol arnoch, neu gawl i'ch cynhesu, neu lysiau ar gyfer cinio'r Sul, gallwch ddewis o blith brocoli, blodfresych, bresych, cennin, winwns, ysgewyll, moron, pannas, bresych coch, betys, a thatws wrth gwrs - peidiwch ag anghofio casglu eich llysiau ar gyfer cinio Nadolig, a moron ar gyfer Rudolph a'i gyfeillion!!!!!!!!

Archebion Nadolig yn cael eu derbyn nawr



Y Becws Cymreig – i ddathlu tymor y gwyliau, mae'r Becws Cymreig yn cynnig dewis blasus o ddanteithion cartref gan gynnwys mins peis, Stollen a boncyffion Nadolig siocled o Wlad Belg, ynghyd â'r holl ddewis arferol o fara, roliau, bara arbenigol a nwyddau pestri perffaith arferol.

BYDD MARCHNAD FFERMWYR HWLFFORDD YN AILDDECHRAU AR DDYDD GWENER 12 IONAWR 2018 YN NHWNNEL ARGOS

Mae Fferm Blaencamel - yn fferm deuluol yn Nyffryn Aeron sydd wedi ennill gwobrau, ac sy'n cynhyrchu llysiau, salad, perlysiau a blodau arddangos ffres. Gwneir jamiau o gynnyrch organig y fferm, a chynhwysion organig eraill. Bydd Blaencamel yn mynd i bob un o'r marchnadoedd ffermwyr sy'n cael eu cynnal yr adeg hon o'r flwyddyn ac yn arbennig ar gyfer y Nadolig, rydym ni'n cynnig dewis arbennig ar gyfer eich bwrdd Nadolig… eisiau'r tatws rhost gorau? Carolus yw'r math gorau y gŵyr Blaencamel amdano. Pannas bendigedig i'w rhostio, swêds, ysgewyll wrth gwrs, bresych coch, gwyn a gwyrdd – ond cofiwch roi cynnig ar ein kalettes newydd hefyd. Moron, gan gynnwys moron amryliw am newid, a betys arbennig sy'n rhoi lliw tymhorol… ynghyd â llawer iawn mwy.
Y cyfan hyn, ynghyd â'r sicrwydd fod Blaencamel yn fferm garbon sero sy'n ymrwymedig i wella'r pridd a thyfu bwyd sy'n blasu'n anhygoel, yn y gobaith o helpu'r Ddaear.
Gallwch warantu ein bod ni'n ateb eich holl ofynion Nadolig drwy lenwi'r ffurflen archebu, ar gael ar y stondin, ac yna cofiwch gasglu eich archeb yn ein marchnad ar ddydd Gwener 22 Rhagfyr.

Cig Lodor Meats – bydd Carla'n rhoi cyfoeth o ddanteithion Nadolig i'w chwsmeriaid eleni, ynghyd â'i dewis rhagorol o facwn, selsig, byrgyrs, golwython a darnau sydd ar gael fel arfer.
Gallwch ddethol popeth sydd ei angen arnoch ar gyfer gwledd Nadolig berffaith: gamwnau tymhorol – dewiswch o flas clof a llawryf; triog; marmalêd ac oren a leim. Cig gwneud selsig porc plaen blasus, porc ac afal, porc a chennin, oen a mint a blasau'r ffermdy; gallwch hefyd ddewis selsig chipolata, selsig bach mewn bacwn, asennau eidion Dexter, coesau cig oen Cymru blasus, Guards of Honour, clustogau oen wedi'u stwffio, lwyn porc wedi'i addurno yn y dull Ffrengig, a chyfrwyau oen – wedi'u stwffio neu'n blaen.
Cofiwch gasglu Ffurflen Archebu Nadolig i sicrhau na fyddwch chi'n anghofio dim o'ch ffefrynnau Nadolig!



Mêl George Durham –
Mae mêl mor ddefnyddiol – yn berffaith ar ei ben ei hun, ac yn wych i gyd-fynd â phrydau a phwdinau. Mae George yn cynnig dewis o fêl a chynnyrch mêl i'w gwsmeriaid… dewiswch o farmalêd mêl oren a marmalêd mêl lemwn, mêl coginio, jariau mêl tedi bêr ac yn arbennig ar gyfer tymor yr Ŵyl, canhwyllau Nadolig a hamperi anrheg Nadolig mêl wedi'u haddurno.

Cawsiau Ffermdy Teifi - mwynhewch gyda detholiad o gawsiau blasus sydd wedi ennill gwobrau. I fynd gyda nhw, beth am lasiaid bach o jin botanegol y ffermdy neu wydraid o frandi afal. Bydd Distyllfa Da Mhile hefyd yn lansio'i ail botelaid a'r detholiad cyfyng o Wisgi grawn unigol o Gymru.

Fferm Dyrcwn Cuckoo Mill – does dim byd all guro twrci ffres o'r fferm ar gyfer eich cinio Nadolig traddodiadol, na'r un pryd arall dros dymor yr Ŵyl – gallwch ddewis o dyrcwn cyfan o'r fferm hyd at 8kg, cyfrwy o dwrci a rhôl brest twrci heb asgwrn, yn blaen neu'n cynnwys stwffin cartref. Dilynwch y Tîm Tyrcwn ar Facebook yma.
https://en-gb.facebook.com/CuckooMillFarm/

Bydd gan y Soap Shack eitemau Nadolig ochr yn ochr â'ch ffefrynnau arferol. Bydd sebonau Pwdin Nadolig, Oren Siocled a Sinamon ac Oren ar gael, ynghyd â sawl cannwyll dymhorol gan gynnwys Pwdin Nadolig, Pluen Eira, Torch Nadolig, Robin Goch, Bara Sinsir a llawer mwy.
Bydd ganddynt hamperi yn cynnwys eu cynnyrch ar gael mewn meintiau amrywiol hefyd, a gellir gwneud hamper yn unol â'ch gofynion chi… gan gynnwys labeli personol.
Nadolig llawen



BYDD MARCHNAD FFERMWYR HWLFFORDD YN AILDDECHRAU AR DDYDD GWENER 12 IONAWR 2018 YN NHWNNEL ARGOS

Fferm Coland Rise – Nadolig ar Stondin Coland Rise, bydd gan Tricia ac Andrew Rogers gynigion arbennig yn ystod mis Rhagfyr… bocsys cig blasus sy'n cynnwys detholiad o eitemau eidion o fferm y teulu. Bocsys penwythnos ar gyfer 2-4 neu 4-8 o bobl; bocsys braster is ar gyfer 2 neu 4 o bobl; bocsys y teulu ar gyfer hyd at 4 o bobl neu hyd at 6 o bobl, hefyd bocsys Nadolig sy'n cynnwys amrywiaeth o eitemau Nadolig.
Hefyd ar y stondin bydd cig selsig eidion cartref a selsig eidion cartref wedi'u lapio mewn bacwn lleol. Peidiwch anghofio y gallwch gasglu hufen ar gyfer eich pwdinau Nadolig, a llaeth ffres, ac os oes chwant bwyd arnoch, bydd Andrew yn fwy na pharod i goginio un o'u byrgyrs Saler blasus i chi.
Nadolig llawen iawn i'n holl gwsmeriaid presennol, a rhai newydd!

Meithrinfa Newbridge – Bydd Phil yn y farchnad ar 15 a 22 Rhagfyr, i werthu dewis o dorchau celyn a phinwydd traddodiadol, basgedi wedi'u plannu a threfniadau arbennig ar gyfer y Tymor, bylbiau yn eu blodau a phlanhigion at y Nadolig, ynghyd â chelyn ac uchelwydd i addurno eich bwrdd Nadolig ar gyfer yr achlysur arbennig Nadoligaidd. Mae Phil yn ein cyflenwi â phlanhigion ffres, tymhorol bob wythnos ar stondin Marchnad Ffermwyr Hwlffordd, ynghyd â thorchau a basgedi Nadolig a fydd hefyd ar gael ar 1 ac 8 Rhagfyr.



Unwaith yn rhagor rydym yn hynod falch o allu croesawu disgyblion o ysgolion lleol i ganu carolau Nadolig yn ein marchnadoedd Nadolig ym mis Rhagfyr, gan ddechrau gyda phlant Ysgol Sant Marc a fydd yn ymuno â ni ar 8 Rhagfyr. Mae Byddin yr Iachawdwriaeth hefyd wedi cytuno'n hael i ddod i'n difyrru trwy ganu carolau ar 15 Rhagfyr, ac yna ar 22 Rhagfyr, disgyblion Ysgol y Santes Fair Wiwlan fydd yn westeion i ni. Fel y bydd llawer ohonoch yn gwybod, mae ein digwyddiadau canu carolau'n cael eu mwynhau gan bawb sy'n ymweld â'r farchnad, ac mae'r carolau Nadolig, a genir mor hyfryd gan ein gwesteion, yn ychwanegu'n fawr iawn at ysbryd y Nadolig yn y marchnadoedd hyn.

Cynhyrchwyr yn ein marchnadoedd Nadolig

Cig Lodor Meats (Pob dyddiad)	Tynewydd Alpacas (Pob dyddiad)
Fferm Dyrcwn Cuckoo Mill (Nid 22 Rhag)	Y Becws Cymreig (Nid 8 Rhag)
Marchnad Wledig Hwlffordd (Pob dyddiad)	Mêl George Durham (Pob dyddiad)
Mae Fferm Blaencamel (Pob dyddiad)	Fferm Organig Hazelwell (Nid 1 Rhag)
Meithrinfa Newbridge (15 & 22 Rhag yn unig)	Farmers Food at Home (Nid 8 Rhag)
Wyau Maes Pennsylvania Farm (Pob dyddiad)	F J Hathway & Sons (Pob dyddiad)
Cawsiau Ffermdy Teifi (Pob dyddiad)	Fferm Coland Rise (Pob dyddiad)
Dofednod Penrallt Goch (Pob dyddiad)	Gwella (8 & 22 Rhag yn unig)
Perlysiau a Phlanhigion Gardd Rhoshill (15 & 22 Rhag yn unig)	Bydd gan y Soap Shack (Nid 1 Rhag)
Ocean Seafoods (Pob dyddiad)	



MAE POB STONDINWR YN GWAHODD CWSMERIAID I YMWELD Â NHW A SIOPA MEWN AWYRGYLCH GLYD, DAN DO YN NHWNNEL ARGOS YN YSTOD MIS IONAWR A CHWEFROR 2018



BYDD MARCHNAD FFERMWYR HWLFFORDD YN AILDDECHRAU AR DDYDD GWENER 12 IONAWR 2018 YN NHWNNEL ARGOS